



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Rhys H. Hughes  
Pennaeth Dysgu / Head of Learning  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd Y Cyngor / Council Offices  
LLANGFENI  
Ynys Môn / Anglesey  
LL77 7TW

Gofynnwch am - Please ask for: Aaron Evans  
ffôn / tel 07748622194  
E-Bost - E-mail: aaronevans@ynysmon.gov.uk

6 Hydref 2021

*Annwyl Bennaeth,*

### **Yng: Dysgu Awyr Agored a Polisi Ymweliadau Addysgol**

Wrth gydnabod buddion 'Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth' yn ei holl ffurfiau, Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi ein diolch i bawb am eu hymroddiad, ymrwymiad a phroffesiynoldeb.

Cydnabyddwn na allwn ddychwelyd yn syml i'r ffordd roedd pethau cyn dyfodiad coronafeirws Covid-19, mae angen inni ddarganfod ffordd o fyw gyda'r feirws, tra'n lleihau ei niwed, a thrwy gefnogi pawb i dychwelyd at gynnydd profiadau dysgu tu hwyt i'r ystafell ddosbarth.

Mae'n braf gweld fod cynnydd sylweddol yn y galw gan ysgolion am gefnogaeth i fynd ar ymweliadau, ac mae arnom angen dod allan o'r argyfwng iechyd presennol mewn sefyllfa lle mae gwerth aruthrol ymweliadau addysgol i bobl ifanc yn parhau i chwarae rôl allweddol yn y broses o adfer.

Fel y gwyddoch, mae'r dystiolaeth sy'n cadarnhau budd profiadau ffurfiannol o'r fath yn gryf iawn. Mae'r rhain yn brofiadau arwyddocaol sy'n byw'n hir yn y cof. Mae cael ailgychwyn gallu cynnydd profiadau o'r fath yn cael effaith gadarnhaol ac yn gwneud cyfraniad hanfodol wrth helpu pobl ifanc i oresgyn effaith yr argyfwng iechyd hwn.

Mae pobl ifanc a staff yn elwa'n aruthrol ar gymryd rhan mewn ymweliadau. Wrth gyfoethogi cwricwlwm yr ysgol neu sefydliad, mae cymryd rhan yn rhoi'r cyfle iddynt gyflawni gweithgareddau na fyddent efallai'n eu profi fel arall, yn eu helpu i ddatblygu sgiliau bywyd pwysig a gallent roi atgofion hapus sy'n parhau am oes.

Mae eich gwaith yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ymweliadau addysgol buddiol o'r fath. Mae mynd â dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn arf hanfodol i helpu cyflwyno'r cwricwlwm yn ddiogel.

I helpu'n llywio ni trwy'r amser heriol hwn, mae Tîm Ymgynghorol Gwasanaeth Addysg Awyr Agored Gogledd Cymru wedi diweddarau Polisi Ymweliadau 2021-22 ac wedi diwygio'r canllawiau gweithredu i'ch helpu. Rhaid i ysgolion hefyd ddilyn y cyngor a'r canllawiau yn nogfen Canllawiau Cenedlaethol yr OEAP [www.oeapng.info](http://www.oeapng.info)

Rhaid i bob lleoliad gynnal asesiad risg a rhaid iddynt **ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws (Covid-19)** fel y gellir rhoi mesurau ar waith i reoli'r risgiau hyn i blant a staff. Bydd cyfeirio at asesiadau risg a chanllawiau'r awdurdod lleol yn hanfodol wrth ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer gweithredu a chynnal eich ymweliadau addysgol.

Yn yr adegau heriol hyn, mae gan Arweinwyr Ymweliadau, Cydgysylltwyr Ymweliadau Addysgol, Penaethiaid a'r Ymgynghorwyr ran bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod risgiau trosglwyddo coronafeirws yn cael eu rheoli'n ddigonol yn unol â chanllawiau.

Mae arnom angen gweithredu doethineb proffesiynol a cheisio mynd ati mewn modd cymesur gan ganolbwyntio ar beth sy'n rhesymol ac y gellir ei gyflawni mewn sefyllfa mor ddeinamig.

Bydd Polisi Ymweliadau 2021-22 ar egwyddorion a amlinellir yn ein Canllawiau Gweithredu yn helpu i amlinellu penderfyniadau wrth gynllunio a chymeradwyo ymweliadau ysgolion gan arweinwyr ymweliadau, cydlynwyr ymweliadau addysgol, penaethiaid, awdurdodau lleol.

Mae angen inni barhau i gynllunio'n ofalus gyda'n gilydd gan gydnabod anghenion emosiynol holl gymuned yr ysgol, ac yn edrych ymlaen gyda gobaith. Gallai ymweliadau addysgol gael rhan bwysig i'w chwarae wrth ailgysylltu phobl ifanc â'u cyfoedion, sefydlu gweithdrefnau newydd, cysylltiadau newydd, cefnogaeth newydd, gwydnwch newydd a dyfodol newydd.

Yn gywir,

*A C Evans*

**Aaron Cadwaladr Evans**

Uwch Reolwr (Sector Uwchradd).

*Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.  
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.*